

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Diogelwch Isel ac Uned Gofal
Seiciatrig Dwys Cwm Seren, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 10, 11 a 12 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf.....	27
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	29
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Uned Diogelwch Isel ac Uned Gofal Seiciatrig Dwys Cwm Seren, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 10, 11 a 12 Tachwedd 2025. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Diogelwch Isel - ward sy'n cael ei chloi â 14 o welyau ar gyfer cleifion gwrywaidd yn unig, sy'n asesu ac yn darparu triniaeth i oedolion ag anghenion iechyd meddwl parhaus a chymhleth y mae angen amgylchedd diogel arnynt.
- Uned Gofal Seiciatrig Dwys - ward sy'n cael ei chloi â saith gwely ar gyfer dynion a menywod, wedi'i dylunio ar gyfer unigolion yn y cyfnod mwyaf aciwt o salwch meddwl difrifol, y mae angen trefniadau arsylwi ac ymyriadau dwys arnynt.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 12 gan aelodau o'r staff. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a'r cleifion yn ystod yr arolygiad ac mae rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd adborth a gafwyd gan gleifion yn ystod yr arolygiad yn awgrymu bod y rhan fwyaf o unigolion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r staff. Roedd y sylwadau yn nodi bod y staff yn garedig, yn barod i helpu ac yn sylwgar. Fodd bynnag, tynnodd ymatebion i'r arolwg sylw at feysydd i'w gwella o ran y ffordd y mae staff yn cynnal urddas, yn dangos parch, ac yn gwrando'n weithredol. Nid oedd adborth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol.

Cadarnhaodd arsylwadau fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd cadarnhaol a sensitif, gan sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n glir ac mewn ffordd a oedd wedi'i theilwra at anghenion unigol. Roedd y ffaith bod staff dwyieithog ar gael, yn enwedig y rheini a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl, yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael gofal yn eu dewis iaith ac yn gwella eu llesiant a'u parodrwydd i ymgysylltu. Roedd gwasanaethau cyfieithu hefyd ar gael i gleifion sy'n siarad ieithoedd eraill.

Roedd cleifion yn gallu cael cymorth gan gyrff allanol, gan gynnwys cyfreithwyr a gwasanaethau eirioli, yn ystod cyfarfodydd perthnasol, ac roedd cyfranogiad y teulu yn cael ei annog lle y bo'n briodol. Gwelwyd bod y gweithdrefnau i gynnal hawliau cleifion yn gadarn, a nodwyd cydymffurfiaeth â dogfennaeth gyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn gyffredinol, roedd gwybodaeth, eiriolaeth a chyfleoedd i roi adborth ar gael i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd pwysau ar yr amgylchedd a'r gallu i ddarparu gweithgareddau yn amlwg, ac mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod pob claf yn cael gofal cadarnhaol cyson.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu rhaglenni gweithgareddau therapiwtig strwythuredig a'u rhoi ar waith ar y ddwy ward
- Cynnig cyfleoedd i gleifion dan gyfyngiadau wneud ymarfer corff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Cyfarfodydd cymunedol rheolaidd a chyfleoedd i gleifion roi adborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn gweithio'n galed i gadw'r cleifion yn ddiogel ac i ofalu amdanynt. Roedd systemau clir ar waith er mwyn rheoli risgiau a diogelu, ac roedd y staff yn ymwybodol o faterion a allai effeithio ar ddiogelwch y cleifion. Roedd y cleifion yn gwybod sut i godi pryderon ac yn gallu cael gafael ar wasanaethau eirioli pe bai angen cymorth ychwanegol arnynt.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn hygyrch ar y cyfan, ac roedd y staff yn defnyddio larymau diogelwch personol ac yn cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd. Fodd bynnag, roedd angen rhoi sylw i rai ardaloedd. Er enghraifft, yn yr Uned Diogelwch Isel, roedd oergelloedd, peiriannau golchi llestri a silffoedd wedi torri.

Nid oedd y gerddi a rhai ardaloedd cymunedol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, roedd y glaswellt yn hir ac roedd llwydni mewn rhai ardaloedd, a allai gynyddu'r risg o lithriadau neu gwympiadau a chyfyngu ar allu'r cleifion i ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfarpar yn y gampfa yn gweithio, ac nid oedd digon o staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant, gan leihau'r cyfleoedd i'r cleifion wneud ymarfer corff. Mae hyn yn bwysig iawn mewn lleoliad iechyd meddwl, lle gall gweithgarwch corfforol helpu cleifion i wella.

Roedd safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cyrraedd ar y cyfan, ond roedd rhai ardaloedd, fel yr ardal diodydd yn yr Uned Diogelwch Isel ac ardal y bath yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys, yn dangos olion traul a byddai o fudd iddynt gael eu gwirio a'u cynnal a'u cadw'n fwy rheolaidd.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn drylwyr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd asesiadau risg yn fanwl ac roedd tystiolaeth bod y cleifion ac aelodau o'u teulu yn cael eu cynnwys. Roedd y staff yn cynllunio mewn modd rhagweithiol i ryddhau cleifion. Roedd cyfarfodydd ward a oedd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd yn cefnogi'r broses rheoli gwelyau, adolygiadau staff, a chyfathrebu.

Roedd y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd da wrth leihau'r defnydd o ddulliau atal. Roedd y staff yn canolbwyntio ar atal problemau ac ymyrryd yn gynnar, a dywedodd y cleifion wrthym fod dulliau atal yn cael eu rhoi ar waith gyda gofal a thosturi pan fo'u hangen. Roedd yr arferion hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac roedd y staff yn rhannu'r gwersi roeddent wedi'u dysgu â'i gilydd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwaith cynnal a chadw a diogelwch amgylcheddol
- Trwsio cyfarpar y gampfa a gwneud yn siŵr bod digon o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar gael fel y gall cleifion wneud ymarfer corff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gostyngiad amlwg yn y defnydd o ddulliau atal, gyda staff yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ac yn trin cleifion ag urddas pan fo angen eu hatal
- Prosesau cynllunio gofal o safon dda
- Archwiliadau atal a rheoli heintiau ac archwiliadau rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau arwain a rheoli Uned Diogelwch Isel ac Uned Gofal Seiciatrig Dwys Cwm Seren yn gadarn ac yn amlwg ar y cyfan, gydag uwch-arweinwyr a rheolwyr y wardiau yn aml yn bresennol ac yn meithrin diwylliant cefnogol a hygyrch.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu mynegi pryderon, drwy strwythurau llywodraethu fel fforymau rheolwyr wardiau, cyfarfodydd busnes ac adolygiadau sicrhau ansawdd. Roedd diweddariadau i bolisiau a'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost a sesiynau goruchwyllo.

Gwelsom systemau ar gyfer rheoli risgiau, rhoi gwybod am ddigwyddiadau a sicrhau ansawdd, ochr yn ochr ag ymrwymiad i welliant parhaus. Roedd lefelau ymgysylltu'r staff ag archwiliadau a phrosiectau gwella, gan gynnwys lleihau arferion cyfyngol a gwella'r broses o gynllunio diogelwch cleifion, yn adlewyrchu arweinyddiaeth ragweithiol. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i rai meysydd. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, yn arbennig hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chymorth Bywyd Brys, yn is na'r lefelau disgwyledig, a dywedodd y staff eu bod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i sesiynau hyfforddiant.

Roedd materion yn ymwneud ag ystadau, gan gynnwys atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw amgylcheddol, yn parhau heb eu datrys am gyfnodau estynedig o amser, sy'n peri pryderon o ran proses oruchwyllo amserol gan yr uwch-dîm rheoli.

Nid oedd seicolegydd ar y ward, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i gael cymorth seicolegol ac i gynnal gweithgareddau therapiwtig, y dylid eu blaenoriaethu. Er gwaethaf yr heriau hyn, dangosodd y gwasanaeth arferion gwaith tîm cryf, diwylliant cadarnhaol a gwaith partneriaeth effeithiol â gwasanaethau eirioli a sefydliadau cymunedol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau gwell mynediad at gymorth seicolegol a gweithgareddau therapiwtig drwy recriwtio seicolegydd i'r swydd sy'n wag ar hyn o bryd.
- Gwella lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, yn enwedig hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys, gan sicrhau bod staff yn cael amser gwarchodedig a digon o gyfleoedd i gwblhau'r hyfforddiant
- Atgyfnerthu prosesau goruchwyllo'r uwch-dîm rheoli a datrys materion ystadau a chynnal a chadw mewn modd amserol, yn arbennig y rhai a nodwyd yn flaenorol ond sydd heb eu datrys o hyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Grŵp cadarn, gofalgarn a chefnogol o staff
- Roedd prosesau cynllunio gofal cynhwysfawr wedi'u teilwra at yr unigolyn ar waith, gydag adolygiadau amlddisgyblaethol rheolaidd yn cael eu cynnal a'r cleifion a'u heiriolwyr yn cael eu cynnwys mewn ffordd ragweithiol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ymatebodd 13 o gleifion i'r holiadur, gan ddarparu gwybodaeth am eu profiadau o ofal, triniaeth, yr amgylchedd a'r rhyngweithio rhyngddynt â'r staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion (77%) eu bod wedi cael gwybodaeth am eu harhosiad yn yr ysbyty, a dywedodd 92% ohonynt eu bod wedi'i deall. Fodd bynnag, mynegodd un claf ddryswch ynghylch ei statws mewn perthynas â chael ei gadw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl (*sectioning*).

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn ymwybodol o'u cynlluniau gofal a thriniaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Mynegodd rai bryderon am fatresi anghyfforddus, prinder gweithgareddau a materion cynnal a chadw, a nodwyd yn ystod yr arolygiad hefyd.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Maen nhw'n dweud yn aml fy mod i'n cael fy nghadw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl, a dydw i dal ddim yn deall pam. Does dim llawer o wybodaeth gen i am y mater.”

“Gallai'r ardd fod yn well, does dim digon o seddi ar gael yno. Dyw'r matres yn fy ystafell wely ddim yn gyfforddus i gysgu arno.”

“Bydd bwydlen wahanol yn helpu i wella ansawdd y bwyd.”

“Dydy fy nghawod i ddim yn dda iawn; mae angen ei newid. Dydy'r peiriant golchi dillad ddim yn cael ei lanhau'n iawn.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan gleifion a gaiff ei nodi yn yr adroddiad, a sut y gall yr uned wneud gwelliannau i wella profiad y claf.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Yn ystod yr arolygiad o wasanaeth Cwm Seren, gwelsom ei fod yn darparu gwybodaeth a chymorth i helpu cleifion i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant. Roedd deunyddiau hybu iechyd, gan gynnwys posteri a thaflenni ar fwyta'n iach,

rhoi'r gorau i smygu, ac ymarfer corff, wedi'u harddangos yn glir yn yr ardaloedd cymunedol, y ceginau a'r dderbynfa. Ni chaniateir i unigolion smygu yn yr Uned Diogelwch Isel na'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys nac o'u cwmpas, sy'n gam cadarnhaol tuag at greu amgylchedd iachach.

Mae rhai gweithgareddau yn cael eu cynnig i'r cleifion yn yr unedau ac yn y gymuned. Roedd cynllunwyr gweithgareddau dyddiol a chyfarfodydd boreol yn dangos beth oedd ar gael, a gwelsom y staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn sesiynau coginio. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym nad oedd digon o weithgareddau, a oedd yn arwain at ddiflastod, yn arbennig i'r rhai hynny nad oeddent yn gallu mynd allan i'r gymuned.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau ystyrlon ar gael i'r cleifion, yn yr uned ac yn y gymuned, a bod gweithgareddau amgen ar gael i'r rhai na allant adael y lleoliad.

Nid oedd llawer o gyfleusterau ymarfer corff ar gael i'w defnyddio. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfarpar yn y gampfa yn gweithio ac nid oedd digon o staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant yn y maes ar gael i helpu'r cleifion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i wneud ymarfer corff, sy'n bwysig iawn mewn lleoliad iechyd meddwl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfarpar y gampfa ei drwsio a bod digon o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar gael i helpu'r cleifion i ddefnyddio'r gampfa.

Mynegodd nifer o gleifion bryderon am addasrwydd y matresi ar gyfer arosiadau hirdymor, gan ddweud eu bod yn anghyfforddus ac nad oeddent yn briodol i'w defnyddio am gyfnod estynedig. Nododd adborth a gafwyd fod ansawdd gwael y matresi yn effeithio ar gwsg cleifion ac, mewn rhai achosion, yn achosi anesmwythder corfforol. Dywedodd un claf:

“Dydw i ddim yn hoffi'r ystafell wely, mae'r matres wedi'i wneud o blastig, ac mae'n effeithio ar fy nghefn, mae'n brifo.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y matresi a ddarperir mewn lleoliadau i gleifion iechyd meddwl mewnol yn addas i'w defnyddio am gyfnod hir ac yn cyrraedd safonau priodol o ran pa mor gyfforddus ydynt a'u gwydnwch.

Nid oedd y gerddi yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol, gyda glaswellt hir ac arwynebau llithrig yn peri risg o lithriadau a chwympiadau. Roedd hyn yn cyfyngu ymhellach ar allu cleifion i gael budd o weithgareddau yn yr awyr agored ac i gael awyr iach.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gerddi eu cynnal a'u cadw a'u gwneud yn ddiogel.

Anogir cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau bywyd beunyddiol, fel golchi dillad a pharatoi prydau bwyd, sy'n cefnogi annibyniaeth a chyfrifoldeb personol am iechyd. Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o arferion hybu iechyd ac roeddent yn trafod ffyrdd iach o fyw â'r cleifion mewn ffordd ragweithiol. Ceir tystiolaeth o ymdrechion parhaus i wella ansawdd ac amrywiaeth y bwyd, a chaiff mentrau bwyta'n iach eu hybu drwy bosteri ac arolygon cleifion.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd caredig a pharchus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gwrtais, yn gefnogol ac yn ystyriol o'u hanghenion. Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o breifatrwydd, gan bob amser guro'r drws cyn mynd i mewn i ystafelloedd gwely neu ystafelloedd ymolchi a chadw gwybodaeth gyfrinachol allan o'r golwg.

Er na welsom hyn yn ystod yr arolygiad, roedd yr ymatebion i'r arolwg cleifion yn awgrymu bod rhai meysydd i'w gwella. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn siŵr a oedd y staff yn eu trin ag urddas a pharch (84.62%) neu'n gwrando arnynt (92.31%), ac nid ymatebodd unrhyw gleifion yn gadarnhaol i'r cwestiynau hyn. Cafwyd ymatebion cymysg mewn perthynas â dealltwriaeth y staff o anghenion a dyheadau'r cleifion. Dywedodd un claf:

“Mae'r lleoliad yn dda. Fodd bynnag, gallai rhai pobl gymryd mwy o ofal o ran eu hetheg gwaith. Mae rhai aelodau o staff yn fwy prysur, ond mae eraill yn treulio amser ar eu ffôn ac yn darparu llai o gymorth i gleifion pan fo angen. Mae angen i rai ohonynt wella eu hagwedd broffesiynol”

Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â'r grŵp cleifion er mwyn deall eu profiadau a'u pryderon yn well a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwelliannau ystyrlon i'r gofal.

Mae gan gleifion eu hystafelloedd eu hunain, a chânt eu hannog i'w personoli â'u heiddo personol ac addurniadau. Mae cyfleusterau en-suite ym mhob ystafell, a cheir opsiynau o ran ardaloedd cymunedol un rhyw i roi preifatrwydd a chysur. Roedd y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau ac yn ymrwymedig i gefnogi cleifion.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol wrth weithio ar y wardiau, ac roedd larymau ar gael i ymwelwyr, pe bai eu hangen. Roedd mynedfeydd y wardiau yn ddiogel, gyda'r drysau yn cael eu cloi i reoli mynediad.

Gwelsom fod y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac ymateb i'w hanghenion neu bryderon. Er eu bod yn gweithio ar wardiau prysur, roedd y staff yn parhau i roi sylw i anghenion y cleifion ac ymateb iddynt, gan sicrhau eu bod yn cael eu diwallu. Roedd hyn yn dangos agwedd broffesiynol a gofalgarg.

Roedd yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn cynnig gofal i ddynion a menywod a all fod yn heriol o ran darparu gofal ag urddas. Roedd y staff yn wybodus ac roedd camau diogelu a phrosesau ar waith i ymdrin â'r heriau hyn a chynnal urddas.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd ffocws clir ar adsefydlu. Roedd gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn wedi'i ategu gan yr arferion lleiaf cyfyngol, mewn perthynas â chynllunio gofal ac arferion yr ysbyty. Roedd cyfleusterau ar gael i gleifion weld eu teuluoedd mewn preifatrwydd, ac roedd ystafelloedd yn cael eu darparu i gleifion dreulio amser heb fod yng nghwmni eraill pe bai angen. Gallai'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a gwelsom fod yr holl ddogfennaeth ofynnol ar gael.

Amserol

Gofal amserol

Mae gan yr ysbyty brosesau clir ar gyfer rheoli llif cleifion a gwelyau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu'n rheolaidd ynghylch defnydd gwelyau a chynllunio ar gyfer derbyn cleifion a'u rhyddhau.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol yn ystod y broses dderbyn. Roedd eu hanghenion yn cael eu hasesu'n brydlon, a gwelsom fod y staff yn darparu gofal a chymorth pan fo'u hangen.

Roedd aciwtedd a lefelau dibyniaeth cleifion ar y wardiau yn amrywio. Ar gyfer cleifion ag anghenion cymhleth, roedd y staff yn darparu cymorth un i un ac yn eu goruchwyllo pan fo'n briodol, a oedd yn enghraifft o arfer cadarnhaol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad â'r staff pan fo angen. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn barod i'w helpu. Gwelsom fod parch amlwg a chydberthnasau cryf rhwng y staff, y cleifion ac aelodau o'u teulu neu eu gofalwyr.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd cadarnhaol a sensitif. Roedd y staff yn cymryd amser i esbonio'r gofal oedd yn cael ei roi ac yn defnyddio iaith ac arddulliau cyfathrebu priodol.

Mae llawer o'r staff yn ddwyieithog, ac yn siarad Cymraeg a Saesneg, sy'n sicrhau y gellir darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg wrth roi gofal. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion sy'n siarad ieithoedd eraill. Gwelsom staff a chleifion yn cyfathrebu yn Gymraeg sy'n agwedd gadarnhaol ar ofal gan ei bod yn helpu cleifion i ymgysylltu ac i feithrin ymddiriedaeth ac yn cefnogi llesiant.

Gall y cleifion gael cymorth gan gyrff allanol, fel cyfreithwyr neu wasanaethau eirioli, yn ystod cyfarfodydd penodol. Gyda chytundeb y cleifion, roedd eu teuluoedd neu eu gofalwyr yn cael eu cynnwys lle bynnag y bo'n bosibl.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol ar gyfer cleifion a gaiff eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, ac mae eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fynd i gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, a bod aelodau o'u teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae polisiau a hyfforddiant ar waith i gefnogi amgylchedd cynhwysol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith i gefnogi gofal diogel a chlinigol effeithiol. Roedd system electronig sefydledig yn cael ei defnyddio i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod sesiynau dadfriffio yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau ac ymyriadau corfforol eu monitro a'u goruchwyllo'n effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom flanced diogelwch tân yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio yn y gegin yn yr Uned Diogelwch Isel. Cafodd y flanced ei symud ar unwaith a rhoddwyd blanced arall yn ei lle i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau diogelwch tân.

Mae blancedi diogelwch tân yn hanfodol ar gyfer rheoli tanau bach ac i amddiffyn cleifion a staff mewn argyfwng. Os yw'r dyddiad ar y flanced wedi mynd heibio, mae'n bosibl bod ei defnydd wedi dirywio, gan leihau ei heffeithiolrwydd a chynyddu'r risg o anaf neu y bydd y tân yn lledaenu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dyddiad cyfredol ar bob un o'r blancedi diogelwch tân a chynnal gwiriadau rheolaidd arnynt fel rhan o'i raglen diogelwch tân a chynnal a chadw cyfarpar.

Nododd yr arolygiad sawl pryder amgylcheddol a oedd yn peri risgiau i ddiogelwch cleifion, atal a rheoli heintiau, a'r amgylchedd therapiwtig yn gyffredinol.

Yn y ddwy ward, gwelsom fannau lle roedd y paent yn plicio ac wedi'i ddifrodi, roedd swigod yn codi ar y llawr yn yr ardaloedd golchi dillad, ac roedd ardaloedd llaith ar y nenfydau, sydd oll yn peri risg o ran safonau hylendid. Roedd y peryglon diogelwch yn cynnwys toiled a oedd yn gollwng ar yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys, ac ymyl wyneb gweithio a oedd yn dod yn rhydd yn y gegin ar yr Uned Diogelwch Isel. Nodwyd methiannau o ran cyfarpar, fel peiriant golchi llestri nad oedd yn gweithio a silffoedd a oedd wedi torri yn yr oergell, ynghyd â pheiriannau dosbarthu sebon annigonol yn ystafelloedd y cleifion.

Gwelsom fod yr ystafell ymolchi ar yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn cael ei defnyddio fel storfa. Mae diffyg bath sy'n gweithio yn cyfyngu ar ddewis y cleifion. Dywedodd y staff wrthym nad yw'r bath yn cael ei ddefnyddio'n aml o gwbl ac y

byddai'n well ganddynt newid defnydd yr ystafell a chreu ardal ysgogiad isel i gleifion, gan nad oes cyfleuster o'r fath ar gael ar hyn o bryd.

Dylai'r bwrdd iechyd ymgysylltu â staff a chleifion i gadarnhau'r angen am ardal ysgogiad isel a chasglu gwybodaeth am y nodweddion dylunio a fyddai'n cefnogi llesiant y cleifion orau.

Roedd y gerddi yn peri risgiau oherwydd arwynebau llithrig, llwyni a oedd wedi gordyfu, a chyflwr blêr y gwelyau plannu uchel, a oedd yn cyfyngu ar fynediad diogel i'r ardaloedd awyr agored. Roedd materion eraill yn cynnwys cadeiriau nad oeddent wedi cael eu gosod yn sownd yn yr ardd a gwres gormodol yn y gegin therapi galwedigaethol, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i'w defnyddio i gynnal gweithgareddau i'r cleifion.

Mae rheolwyr y wardiau wedi uwchgyfeirio'r pryderon hyn ond maent yn dal heb eu datrys ers cyfnod estynedig o amser, sy'n tynnu sylw at ddiffyg yn nulliau rheoli'r adran ystadau a phrosesau goruchwyllo uwch-staff. Mae cofnod manwl o'r materion hyn sydd heb eu datrys i'w weld yn adnodd tracio gwaith yr adran ystadau a gaiff ei gwblhau gan reolwyr y ddwy ward, sy'n dangos eu bod yn atgyfeirio materion yn rheolaidd ond nad ydynt yn cael eu datrys mewn modd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau yr ymdrinnir â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r ystad a'r amgylchedd nad ydynt wedi'u datrys a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn brydlon ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys rhoi system gadarn ar waith i'r uwch-dîm rheoli oruchwyllo adnodd tracio'r adran ystadau, ag atebolrwydd clir o ran cynnydd ac amserlenni.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal. Roedd yr ardaloedd clinigol yn ymddangos yn lân ac yn drefnus, a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o arferion atal a rheoli heintiau. Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal.

Roedd y cyfarpar glanhau wedi'i storio'n ddiogel ac yn briodol, ac roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff domestig a chlinigol.

Roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael, a gwelsom fod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion o ran defnyddio cyfarpar diogelu personol. Nodwyd gwelliannau yn dilyn archwiliadau hylendid dwylo, a oedd yn dangos ymrwymiad i gynnal safonau. Fodd bynnag, nid oedd arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw unigolyn yn atebol am lywio gwelliannau a sicrhau cysondeb ar draws y ddwy ward. Y cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau oedd 76% ar gyfer yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys ac 80% ar gyfer yr Uned Diogelwch Isel.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig ei benodi i oruchwylio'r mesurau rheoli heintiau a'u cydlynu mewn ffordd glir.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, ac roedd achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Roedd prosesau diogelu'r bwrdd iechyd, wedi'u hategu gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael i staff y wardiau eu gweld drwy'r fewnwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn deall y weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod trafodaethau, dangosodd y staff eu bod yn meddu ar wybodaeth am y broses atgyfeirio.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau fel mater o drefn, gan gynnwys gwiriadau o'r cyfarpar adfywio. Roedd y staff yn dogfennu'r gwiriadau hyn i gadarnhau bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio ac yn gyfredol.

Roedd y staff yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, nodwyd bod y dyddiad defnyddio ar un o'r silindrau ocsigen yng nghlinig yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys wedi mynd heibio. Cafodd y silindr ocsigen hwn ei symud ar unwaith a rhoddwyd silindr â dyddiad cyfredol yn ei le i sicrhau diogelwch cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dyddiad ar bob silindr ocsigen yn gyfredol a gwirio'r dyddiadau yn rheolaidd fel rhan o'i brosesau rheoli meddyginiaethau a diogelwch cyfarpar.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd trefniadau addas ar waith i reoli a storio meddyginiaethau'n ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod prosesau storio diogel ar waith. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn lân ac yn drefnus, ac roedd cofnodion meddyginiaeth cynhwysfawr ac archwiliadau rheolaidd yn sicrhau cydymffurfiaeth.

Roedd staff cofrestredig yn gwirio'r stoc feddyginiaeth bob dydd, ac roedd yr arweinwyr clinigol yn cynnal archwiliadau bob wythnos. Gwelsom sawl rownd feddyginiaeth a oedd yn cael eu cynnal mewn ffordd briodol a phroffesiynol, gyda'r staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Roedd y ffordd y gwnaeth tîm yr Uned Diogelwch Isel ymdrin â gwall diweddar yn ymwneud â chyffur a reolir yn enghraifft gwerth ei nodi o arfer da. Nodwyd y gwall yn brydlon drwy archwiliad mewnol, rhoddwyd gwybod amdano drwy Datix, ac ymdriniwyd ag ef drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol i'r staff, sy'n dangos bod systemau llywodraethu a dysgu effeithiol ar waith. Roedd y ffaith bod fferyllydd iechyd meddwl dynodedig ar gael yn cefnogi arferion meddyginiaeth diogel ymhellach.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i helpu i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd y systemau ar gyfer rheoli digwyddiadau ac ymyriadau corfforol yn gadarn ac wedi'u hymgorffori'n dda.

Cadarnhaodd y staff fod cyfarfodydd dadfrifio yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau, a dangosodd tystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod pob digwyddiad ac ymyriad corfforol (fel dulliau atal yn gorfforol) yn cael ei adolygu a'i oruchwyllo. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o'r staff yn defnyddio technegau ailgyfeirio a thechnegau llonyddu yn ystod yr arolygiad. Roedd yr ymyriadau hyn yn cael eu cynnal mewn ffordd barchus a chefnogol, gan ddangos ymrwymiad i'r arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd pob digwyddiad yn cael ei nodi ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX), ac roedd hierarchaeth gymeradwyo glir er mwyn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd, ac roedd gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn cael eu rhannu â'r staff a'r sefydliad ehangach drwy gyfarfodydd a sesiynau goruchwyllo.

Lefelau cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar atal yn gorfforol oedd 75% ar yr Uned Diogelwch Isel a 79% ar yr Uned Gofal Seiciatrïg Dwys. Dywedwyd wrthym fod cyrsiau wedi'u trefnu i'r staff a bod digon o staff hyfforddedig ar bob shift i reoli digwyddiadau'n ddiogel.

Mae'r trefniadau hyn yn dangos ffocws cryf ar ddiogelwch cleifion a gwelliant parhaus. Fodd bynnag, mae cynnal lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar ymyriadau corfforol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod staff yn parhau'n hyderus ac yn gymwys i reoli sefyllfaoedd heriol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y ffigurau ar gyfer hyfforddiant ar dulliau atal eu gwella.

Maeth a hydradu

Roedd pob claf yn cael asesiad maeth adeg ei dderbyn. Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol, ac roedd gofynion penodol yn cael eu bodloni fel y bo'n briodol.

Roedd prydau bwyd a diodydd ar gael i'r cleifion drwy gydol y dydd, ac roeddent yn gallu defnyddio'r baeau diod ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, mynegodd y cleifion bryderon am yr amrywiaeth cyfyngedig o ddewisiadau bwyd a'r ffaith bod y dewisiadau yn ailadroddus. Cwblhaodd staff y wardiau brosiect 'Eclip' gyda'r cleifion yn ddiweddar. Menter gwella ansawdd yw 'Eclip' sy'n anelu at wella amseroedd bwyd drwy alluogi cleifion i archebu bwyd ar yr un diwrnod yn hytrach na chynnig bwydlen benodol wedi'i threfnu diwrnodau ymlaen llaw. Nod y dull hwn yw lleihau opsiynau ailadroddus a gwella ffresni ac amrywiaeth.

Cafodd y staff a'r cleifion eu cynnwys wrth wella'r broses, a disgwylir i'r prosiect ymdrin â phryderon hirsefydledig o ran dewisiadau cyfyngedig a pha mor aml y caiff y fwydlen ei chylchdroi.

Roedd gwybodaeth am fwyta'n iach i'w gweld, ac roedd cleifion yn cael eu cefnogi i storio bwyd personol yn ddiogel, gyda gwiriadau o dymheredd yr oergell ac amserlenni glanhau rheolaidd ar waith.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn dda a'u storio'n ddiogel ac roeddent yn cydymffurfio â gofynion GDPR. Roedd systemau electronig yn sicrhau eu bod ar gael yn hwylus i staff awdurdodedig, a chadarnhaodd archwiliadau eu bod yn gywir ac yn gyflawn. Roedd archwiliadau cadw cofnodion a hapsamplu rheolaidd yn atgyfnerthu'r safonau llywodraethu.

Roedd dogfennaeth statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion, ac roedd y cofnodion gofal yn adlewyrchu cyfraniad y cleifion a mewnbwn y tîm amlddisgyblaethol.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Cod Ymarfer diwygiedig Cymru, 2016). Roedd yr holl gofnodion yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n

gyfreithlon ac yn dangos eu bod wedi cael gwybod am eu hawliau, ac roeddent yn cynnwys cydnabyddiaethau wedi'u llofnodi.

Roedd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn defnyddio Roedd system effeithlon ac effeithiol i gefnogi'r broses o weithredu, monitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y Ddeddf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal Gwnaethom adolygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth pedwar claf. Roedd y cofnodion yn dangos bod asesiad iechyd corfforol a dogfennaeth fonitro safonedig fel NEWS a MUST wedi cael eu cwblhau'n llawn a'u cadw'n gyfredol. Roedd asesiadau ychwanegol yn cael eu cwblhau yn seiliedig ar anghenion cleifion unigol.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei dogfennu yn y cynlluniau gofal a'r proffiliau risg, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd heriol a'u tawelu. Roedd y cofnodion clinigol yn dangos yn glir fod y cleifion a'u teuluoedd yn rhan o'r trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r anghenion a'r risgiau cyfredol. Roedd y broses o fonitro iechyd corfforol yn cael ei chofnodi'n gyson, ac roedd y cynlluniau rheoli risg yn fanwl ac yn gadarn. Roedd tystiolaeth o gynllunio gweithredol ar gyfer rhyddhau cleifion o leoliadau tymor hir.

Roedd y dogfennau'n drefnus, ac roedd archwiliadau yn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau. Roedd cynnwys gwasanaeth eirioli fel rhan o rowndiau ward yn atgyfnerthu llais y claf ymhellach wrth wneud penderfyniadau. Roedd y ddogfennaeth cynllunio gofal a welsom ar y ddwy ward yn enghraifft o arfer canmoladwy.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y ward yn cynnal cyfarfodydd ddwywaith y dydd i gadarnhau'r lefelau defnydd gwelyau, cofnodi arsylwadau, adolygu'r lefelau staffio a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg neu a oedd wedi newid mewn perthynas â'r cleifion.

Roedd rotas yn cael eu cynllunio ymhell ymlaen llaw, gan leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Roedd systemau rheoli ac archwilio digwyddiadau yn cefnogi gwelliannau parhaus, ac roedd adnoddau digidol yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth yn ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cawsom 12 o ymatebion gan staff yn y lleoliad hwn. Nid atebwyd pob cwestiwn, felly nid oedd 12 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Dywedodd y staff eu bod yn gallu bodloni'r gofynion gwaith, bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau a bod nifer digonol o staff. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud newidiadau i'r gweithle a bod y systemau TG angenrheidiol ar gael iddynt. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y sefydliad, a oedd yn rhoi blaenoriaeth i ofal a diogelwch cleifion, a nododd llawer ohonynt y byddent yn argymhell y gweithle.

Roedd pob aelod o'r staff yn gwybod sut i roi gwybod am arferion anniogel, roeddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon ac yn hyderus y byddai'r sefydliad yn ymdrin â materion. Dywedwyd bod y gweithle yn lleoliad cynhwysol, ni chafwyd wybod am unrhyw achosion o wahaniaethu ac roedd pawb yn cael mynediad teg i gyfleoedd. Nododd y staff hefyd fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn ffordd gadarnhaol a bod ymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn timau.

Ar y cyfan, nododd yr arolwg amgylchedd gwaith cefnogol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar y claf, gyda'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hyderus o ran dulliau arwain a llywodraethu'r sefydliad.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae Uned Diogelwch Isel Cwm Seren yn amgylchedd croesawgar a chyfeillgar i gleifion, nyrsys dan hyfforddiant ac unrhyw un arall sy'n dod i'n ward. Rydyn ni'n deulu estynedig ac yn cefnogi ein gilydd pan fo angen.”

“Tîm cefnogol iawn sy'n cydweithio'n dda. Mae'n amgylchedd perffaith i staff sydd newydd gymhwyso ddechrau eu gyrfa.”

“Mae'n lle hyfryd i weithio ynddo. Mae amgylchedd cefnogol, tosturiol a gofalgarn iawn yma sy'n rhoi cleifion yn gyntaf.”

“Rwyf wedi cael profiad ar y ward fel myfyriwr, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, Nyrs Iechyd Meddwl Cofrestredig a bellach fel uwch-ymarferydd. Roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a'm clywed ym mhob un o fy rolau.”

“Mae'r lleoliad lle rwyf yn gweithio yn cael ei redeg yn dda iawn ac mae diogelwch cleifion a staff yn holl bwysig.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur sefydliadol clir ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y staff yn dilyn y trefniadau hyn yn ystod y dydd, ac roedd prosesau goruchwyllo'r uwch-reolwyr a systemau ar alwad yn sicrhau parhad gyda'r nos a'r tu allan i oriau.

Roedd y strwythurau llywodraethu yn gadarn, gyda fforymau rheolwyr wardiau, cyfarfodydd busnes, a chyfarfodydd ansawdd a diogelwch rheolaidd yn sicrhau bod safonau clinigol, digwyddiadau a diweddariadau i bolisiâu yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhaeadru'n effeithlon drwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost a sesiynau goruchwyllo.

Rheolwyr y wardiau oedd yn gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o reoli'r wardiau o ddydd i ddydd, gyda chymorth gan ddirprwy reolwyr y wardiau a'r uwch-nyrs. Roedd y wardiau yn cael eu harwain mewn ffordd gadarn a rhagweithiol, ac roedd y staff yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr y bwrdd iechyd. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion.

Gwelsom ymdeimlad cryf o waith tîm drwy gydol yr arolygiad, ac roedd y staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd.

Er bod yr arweinwyr yn weladwy ac yn amlwg yn ymgysylltu â'r staff, nododd yr arolygiad fwlch critigol o ran trefniadau goruchwyllo'r uwch-reolwyr mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r ystad a'r amgylchedd. Er bod rheolwyr y wardiau yn uwchgyfeirio materion fwy nag unwaith a'r broses olrhain fanwl sydd ar waith drwy adnodd tracio'r adran ystadau, roedd llawer o dasgau atgyweirio a chynnal a chadw yn parhau heb eu cwblhau am gyfnodau hir. Mae'r diffyg gweithredu amserol hwn yn tanseilio hyder yn y prosesau llywodraethu ac yn effeithio ar yr amgylchedd therapiwtig.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod uwch-reolwyr yn goruchwyllo'r broses o reoli'r ystad yn uniongyrchol, gan gynnwys cynnal adolygiadau rheolaidd o adnodd tracio'r adran ystadau a'r broses o uwchgyfeirio tasgau heb eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol.

Y Gweithlu

Roedd strwythur sefydliadol clir ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y staff yn dilyn y trefniadau hyn yn ystod y dydd, ac roedd

prosesau goruchwyllo'r uwch-reolwyr a systemau ar alwad yn sicrhau parhad gyda'r nos a'r tu allan i oriau.

Roedd y strwythurau llywodraethu yn gadarn, gyda fforymau rheolwyr wardiau, cyfarfodydd busnes, a chyfarfodydd ansawdd a diogelwch rheolaidd yn sicrhau bod safonau clinigol, digwyddiadau a diweddariadau i bolisiau yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhaeadru'n effeithlon drwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost a sesiynau goruchwyllo.

Gwelsom ymdeimlad cryf o waith tîm drwy gydol yr arolygiad, ac roedd y staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd.

Gweithlu medrus a galluog

Mae'r gwasanaeth yn elwa ar weithlu sefydlog a medrus, gyda chyfraddau isel o swyddi gwag a lefelau cadw staff da. Roedd prosesau rhagweithiol ar waith ar gyfer cynllunio'r gweithlu, gyda rotas yn cael eu rheoli ymlaen llaw a dibyniaeth isel iawn ar staff asiantaeth. Roedd y staff yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd, ac roedd cyfradd cwblhau arfarniadau blynyddol o 83% ar yr Uned Diogelwch Isel a 73% ar yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys.

Roedd amrywiaeth o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ar gael i'r staff, gan gynnwys hyfforddiant Cymraeg. Roedd pwyslais cryf ar lesiant y staff, ac roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol, cymorth seicolegol, a mentrau llesiant ar gael iddynt.

Dangosodd y data hyfforddiant ar gyfer y ddwy ward lefelau cydymffurfiaeth gyffredinol cadarnhaol, gyda'r ddwy ward dros 80%; fodd bynnag, roedd y ffigurau ar gyfer rhai cyrsiau hyfforddiant gorfodol yn is na'r safonau disgwyliedig.

Roedd y lefelau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys yn parhau'n isel ar gyfer y ddwy ward. Roedd gan yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys lefel gydymffurfiaeth o 46.6% â hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys, ac roedd gan yr Uned Diogelwch Isel lefel gydymffurfiaeth o 38.13% â hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol. Rhoddodd y staff wybod yn gyson am anawsterau wrth drefnu hyfforddiant, gan ddweud bod prinder sesiynau hyfforddiant a chymhlethdod dulliau darparu cyrsiau yn eu hatal rhag gallu eu cwblhau.

Mae'r pryder hwn wedi bod yn bryder ers peth amser. Nododd yr arolygiad blaenorol ym Morlais (2024) fod angen gwella lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys yno hefyd. Mae'r ffaith bod y mater hwn yn dod i'r amlwg eto yn nodi diffyg cynnydd parhaus ac yn atgyfnerthu'r angen i gymryd camau gweithredu amserol ac effeithiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys eu gwella drwy wneud y canlynol:

- Darparu sesiynau hyfforddiant digonol.
- Sicrhau bod amser gwarchodedig ar gael i'r staff fynychu.
- Monitro cyfraddau cwblhau mewn ffordd gadarn.

Hefyd, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol ac yn cael ei gefnogi i wneud hynny.

Gwnaeth y staff ddarparu'r rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt yn ddi-oed, a oedd yn adlewyrchu prosesau llywodraethu da. Roedd pob polisi a welsom yn ystod yr arolygiad yn gyfredol.

Roedd systemau priodol ar waith i sicrhau bod trefniadau recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn cyflogi staff, roedd geirdaon yn cael eu casglu ar eu cyfer, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu dilysu.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol ar y ward. Darparodd y staff dystiolaeth o hyn a gwnaethant ddisgrifio'r broses sefydlu.

Un angen heb ei ddiwallu a nodwyd yn ystod yr arolygiad oedd y ffaith nad oedd seicolegydd yn gweithio ar y ddwy ward. Mae hyn wedi bod yn fater parhaus ac mae'n effeithio ar ofal cleifion o hyd, yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau therapiwtig, asesiadau seicolegol, a chynllunio ar gyfer gwella.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth seicolegol a gweithgareddau therapiwtig yn cael eu blaenoriaethu drwy ymdrin yn ddi-oed â swydd y seicolegydd, sy'n wag ar hyn o bryd, a rhoi cynlluniau clir ar waith i sicrhau bod mewnbyn seicolegol ar gael i gleifion mewn modd amserol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd â'r staff mewn modd amserol yn dilyn cwynion a digwyddiadau.

Roedd gwybodaeth am y Ddyletswydd Gonestrwydd ar gael, ac roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo'n hyderus

wrth godi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill, a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dathlu amrywiaeth mewn modd rhagweithiol, gan sicrhau bod anghenion pob claf yn cael eu diwallu. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi'r staff wrth godi pryderon.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn gadarn, gyda pholisïau a gweithdrefnau clir i reoli data cleifion, yn electronig ac ar bapur, yn ddiogel. Roedd y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar lywodraethu gwybodaeth a GDPR, ac roedd mynediad at gofnodion yn cael ei reoli'n briodol.

Roedd technoleg ddigidol yn cefnogi'r broses gyfathrebu, gyda gliniaduron a llechi ar gael ar gyfer galwadau fideo, ymgynghoriadau o bell, ac i ymgysylltu â chleifion, yn amodol ar asesiadau risg. Roedd dyfeisiau'n ddiogel, ac roedd cyfrinachedd y cleifion yn cael ei barchu bob amser. Roedd proses fonitro ac archwiliadau mewnol parhaus yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth â safonau llywodraethu gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Mae Cwm Seren yn dangos ymrwymiad cryf i wella ansawdd, gydag archwiliadau rheolaidd, arolygon, ac adolygiadau o safonau clinigol yn llywio ymarfer. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio digwyddiadau, cwynion, a chamgymeriadau a fu bron â digwydd fel cyfleoedd i ddysgu, gyda chanlyniadau'n cael eu rhannu mewn cyfarfodydd a sesiynau goruchwyllo.

Mae prosiectau gwella ansawdd, fel y fenter bwydlenni 'Eclip' a phrosesau cynllunio diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu hannog, gyda'r staff yn cael eu hannog i ymgymryd â rolau hyrwyddwyr mewn meysydd allweddol. Gofynnir am adborth gan gleifion a staff drwy gyfarfodydd cymunedol, arolygon a chodau QR.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y gwasanaeth wedi meithrin partneriaethau cryf â sefydliadau yn y trydydd sector, gwasanaethau cymunedol, a grwpiau eirioli, a oedd yn cefnogi gofal cyfannol a phroses effeithiol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion. Roedd meddygon

teulu, deintyddion, a sefydliadau elusenol cymunedol ar gael i'r cleifion, ac roedd trefniadau ymgysylltu ar waith â gwasanaethau eirioli.

Roedd y gwasanaeth yn cydweithio â phartneriaid allanol i ddiwallu anghenion cleifion ac yn hwyluso mynediad at gyngor am fudd-daliadau, cyfleoedd gwirfoddoli, a gweithgareddau cymunedol. Roedd y partneriaethau hyn yn gwella profiad y claf ac yn eu helpu i wella ac ailintegreiddio i mewn i'r gymuned.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Silindr Ocsigen yr oedd y dyddiad arno wedi mynd heibio yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys.	Mae'n bosibl na fyddai'n darparu ocsigen yn effeithiol neu y gallai fethu'n gyfan gwbl.	Uwchgyfeiriwyd y mater at reolwr y ward.	Cafodd y silindr ocsigen dan sylw ei symud a rhoddwyd silindr newydd yn ei le.
Blanced Diogelwch Tân yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio yn yr Uned Diogelwch Isel.	Mae'n bosibl bod defnydd y flanced wedi dirywio, gan leihau ei heffeithiolrwydd a chynyddu'r risg o anaf neu y bydd tân yn lledaenu.	Uwchgyfeiriwyd y mater at reolwr y ward.	Cafodd y Flanced Diogelwch Tân dan sylw ei symud a rhoddwyd blanced newydd yn ei lle.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Diogelwch Isel ac Uned Gofal Seiciatrig Dwys Cwm Seren

Dyddiad yr arolygiad: 10 - 12 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Diogelwch Isel ac Uned Gofal Seiciatrig Dwys Cwm Seren

Dyddiad yr arolygiad: 10 - 12 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nododd adborth gan gleifion mewn cyfweiliadau ac arolygon bod angen gwneud gwelliannau er mwyn gwella profiad y claf.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan gleifion a gaiff ei nodi yn yr adroddiad, a sut y gall yr uned wneud gwelliannau i wella profiad y claf.	Gofal ag urddas.	Caiff yr adborth gan gleifion a nodwyd yn yr adroddiad ei ystyried yn y cynllun gweithredu o dan adrannau 2, 3, 4, 5, a 7	Gweler isod: Gweler y camau gweithredu isod:
2.	Dywedodd y cleifion wrthym nad oedd digon o	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau	Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd.	Bydd yr uned yn gwella ei rhaglen gweithgareddau	Arweinydd Therapi Galwedigaethol 30 Ebrill 2026

weithgareddau, a oedd yn arwain at ddiflastod, yn enwedig i'r rhai nad oeddent yn gallu mynd allan i'r gymuned.

ystyrlon ar gael i'r cleifion, yn yr uned ac yn y gymuned, a bod gweithgareddau amgen ar gael i'r rhai na allant adael y lleoliad.

bresennol drwy sicrhau bod proffil diddordebau/hobiau yn cael ei gwblhau ar gyfer pob claf o fewn 72 awr i gael ei dderbyn a thrwy gyflwyno archwiliadau chwarterol a phrosesau casglu adborth gan gleifion bob mis i fonitro amrywiaeth, perthnasedd, a hygyrchedd y gweithgareddau ystyrlon a gynigir yn yr uned ac yn y gymuned. Bydd y timau rheoli yn trafod proses ar gyfer casglu ac adolygu'r data am y gweithgareddau a ddarperir ac yn cytuno ar y broses honno.

3.	Dywedodd y cleifion nad oedd digon o weithgareddau, a oedd yn arwain at ddiflastod, yn enwedig i'r rhai nad oeddent yn gallu mynd allan i'r gymuned.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfarpar y gampfa ei drwsio a bod digon o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar gael i helpu'r cleifion i ddefnyddio'r gampfa.	Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd.	Bydd pedwar aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant priodol hyd at lefel 2 er mwyn bod yn hyfforddwyr yn y gampfa a fydd yn eu galluogi i gefnogi cynlluniau gofal yn y gampfa ar gyfer cleifion Cwm Seren. Bydd y cwrs hwn yn para chwe wythnos a byddant wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.	Uwch-nyrs	30 Mawrth 2026
				Caiff cyfarpar newydd ei archebu ar gyfer y gampfa (cafodd y cyllid ei gymeradwyo ar 15 Rhagfyr 2025) a'i osod.	Uwch-nyrs	31 Mawrth 2026
4.	Mynegodd y cleifion bryderon am addasrwydd y matresi ar gyfer arosiadau	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y matresi a ddarperir mewn lleoliadau i gleifion iechyd meddwl	Gofal ag Urddas.	Archwilio pob matres yn yr Uned Gofal Seiciatrïg Dwys a'r Uned Diogelwch Isel i	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau

				Ailystyried y prosesau presennol sydd ar waith, gyda chymorth Gweithredu dros lechyd Meddwl Gorllewin Cymru, i gasglu adborth gan gleifion a rhoi gwybod am yr adborth hwn i reolwyr y wardiau, gan arwain at lunio crynodebau wedi'u dogfennu a chymryd camau i wella.		30 Mehefin 2026
6.	Nid oedd y gerddi yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol, gyda glaswellt hir ac arwynebau llithrig yn peri risg o lithriadau a chwympiadau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gerddi yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwneud yn ddiogel.	Amgylchedd Diogel.	Cael dyfynbrisiau a glanhau'r ddwy ardd (yr Uned Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys) a threfnu amserlen cynnal a chadw.	Rheolwr Ystadau	31 Mawrth 2026
7.	Mynegodd y cleifion bryderon am yr amrywiaeth cyfyngedig o	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ddatblygu a monitro'r prosiect 'Eclip' i wella amrywiaeth a ffresni'r	Gofal ag Urddas.	Rhoi System Archebu Bwyd Synbiotix ar waith i wella'r broses o archebu bwyd	Uwch-nyrs	31 Mawrth 2026

	ddewisiadau bwyd a'r ffaith bod y dewisiadau yn ailadroddus.	prydau bwyd, gan sicrhau y gweithredir ar adborth gan gleifion.		ymlaen llaw a chasglu adborth gan gleifion. Cyflwyno bwydlen dreigl bob pedair wythnos gyda'r nod o gyflawni cyfradd boddhad o 90% ar gyfer yr amrywiaeth o brydau bwyd, a rhoi system ar waith i reolwyr y wardiau adolygu'r cyfraddau boddhad bob tri mis. Gwella ansawdd prydau bwyd oer gyda'r nos drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol i staff y ward a'r staff arlwygo.	Uwch-nyrs Uwch-nyrs	31 Mawrth 2026 31 Mawrth 2026
8.	Gwelsom flanced diogelwch tân yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio yn y bae	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dyddiad cyfredol ar bob un o'r blancedi diogelwch tân a	Diogelwch a Llywodraethu.	Caiff y gofyniad i gynnal gwiriadau i sicrhau bod y dyddiad ar bob blanced	Cynghorydd Tân	Wedi'i gwblhau

	diodydd yn yr Uned Diogelwch Isel.	chynnal gwiriadau rheolaidd arnynt fel rhan o'i raglen diogelwch tân a chynnal a chadw cyfarpar.		diogelwch tân yn gyfredol ei ychwanegu at yr asesiad risg tân blynyddol.		
9.	Roedd yr ystafell ymolchi ar yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn cael ei defnyddio fel storfa.	Dylai'r bwrdd iechyd ymgysylltu â staff a chleifion i gadarnhau'r angen am ardal ysgogiad isel a chasglu gwybodaeth am y nodweddion dylunio a fyddai'n cefnogi llesiant y cleifion orau.		Bydd tîm yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn gweithio gyda staff a chleifion i gadarnhau'r angen am ardal ysgogiad isel ac yn cyd-ddylunio ei nodweddion allweddol drwy sesiynau ymgysylltu strwythuredig. Yna, bydd cais llawn am gyllid ar gyfer y gwaith a'r cyfarpar gofynnol yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r bwrdd iechyd.	Rheolwr y Ward	30 Mehefin 2026
10.	Pryderon amgylcheddol: paent a oedd yn plicio, llawr	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau yr ymdrinnir â'r holl faterion yn ymwneud â'r	Diogelwch a Llywodraethu.	Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod pob un o'r materion yn ymwneud	Pennaeth y Gwasanaeth	30 Medi 2026

	wedi'i ddifrodi, ardaloedd llaith, cyfarpar wedi torri, peiriannau dosbarthu sebon annigonol, diffyg nodweddion atal pwyntiau clymu, a materion ystadau heb eu datrys.	ystad a'r amgylchedd nad ydynt wedi'u datrys a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn ddi-oed ac yn effeithiol, gan sicrhau bod gan yr uwch-reolwyr drefniadau goruchwyllo cadarn a llinellau atebolrwydd clir ar waith.		â'r ystad a'r amgylchedd nad ydynt wedi'u datrys a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn cael eu cofnodi a'u blaenoriaethu ac y caiff cynnydd wrth ymdrin â'r materion ei fonitro drwy'r Grŵp Strategaeth ar gyfer Adeiladau er mwyn i'r uwch-reolwyr oruchwyllo'r broses hyd nes y caiff yr holl faterion eu datrys.		
11.	Nodwyd bod y dyddiad defnyddio ar silindr ocsigen yng nghlinig yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys wedi mynd heibio. Cafodd y silindr ocsigen hwn ei symud ar unwaith a rhoddwyd silindr â	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dyddiad ar bob silindr ocsigen yn gyfredol a gwirio'r dyddiadau yn rheolaidd fel rhan o'i brosesau rheoli meddyginiaethau a diogelwch cyfarpar.	Diogelwch a Llywodraethu.	Bydd y gwasanaeth yn rhoi amserlen ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau nosweithiol rheolaidd o'r dyddiadau ar silindrau ocsigen ar bob Ward lechyd Meddwl ar gyfer Cleifion Mewnol	Uwch-nyrs	1 Mawrth 2026

	dyddiad cyfredol yn ei le i sicrhau diogelwch cleifion.					
12.	Nid oedd arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig fel unigolyn i fod yn atebol am wella prosesau rheoli heintiau a sicrhau cysondeb.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig ei benodi i oruchwyllo'r mesurau rheoli heintiau a'u cydlynu mewn ffordd glir.	Atal a Rheoli Heintiau.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau mai'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio, Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer atal a rheoli heintiau a bod tîm atal a rheoli heintiau dynodedig ar waith sy'n cwmpasu'r holl arbenigeddau. Caiff dulliau atal a rheoli heintiau eu trafod fel mater o drefn a cheir adroddiadau drwy Grŵp Llywodraethu Integredig y Grŵp Gofal Clinigol ar gyfer		Wedi'i gwblhau

				lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, y mae'r tîm atal a rheoli heintiau yn mynychu ei gyfarfodydd. Mae staff atal a rheoli heintiau sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Glangwili yn gysylltiedig ag Uned Cwm Seren, ac maent yn rhoi gwybodaeth arbenigol am atal a rheoli heintiau i'r uned ac yn cynnal archwiliadau. Mae Rheolwyr y Wardiau yn goruchwyllo arferion ar y wardiau ac yn goruchwyllo ymatebion i heintiau ac maent yn cael eu cynnwys mewn ymchwiliadau i ddigwyddiadau a brigiadau o achosion sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau		
--	--	--	--	--	--	--

				ochr yn ochr â'r tîm atal a rheoli heintiau		
13.	Mae'r lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys yn parhau'n isel; dywedodd y staff eu bod yn ei chael hi'n anodd trefnu hyfforddiant.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys eu gwella drwy ddarparu sesiynau hyfforddiant digonol, rhoi amser gwarchodedig i'r staff eu mynychu, a monitro'r cyfraddau cwblhau yn gadarn.	Llywodraethu a'r Gweithlu.	Bydd Rheolwyr y Wardiau yn gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant adfywio drwy drefnu i staff ymgymryd â hyfforddiant a restrir ar y Cofnodion Staff Electronig yn uniongyrchol a neilltuo amser ymlaen llaw ar y rhestrau staff iddynt wneud hynny, gan barhau i adolygu'r data cydymffurfiaeth bob mis a chymryd camau amserol i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.	Uwch-nyrs	31 Gorffennaf 2026
14.	Roedd rhai ffigurau ar gyfer hyfforddiant gorfodol (e.e. dulliau atal yn gorfforol) yn is na'r safonau disgwyledig.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol a'u bod yn	Llywodraethu a'r Gweithlu.	Bydd y Bwrdd Iechyd yn gwella lefelau cydymffurfiaeth yr Uned â hyfforddiant gorfodol drwy roi trefniadau staffio	Uwch-nyrs	31 Gorffennaf 2026

		cael eu cefnogi i wneud hynny		diwygiedig y cytunwyd arnynt eisoes ar waith ar y ward, sy'n cynnwys dyrannu amser i gefnogi amser gwarchodedig ar gyfer hyfforddiant. Bydd lefel cydymffurfiaeth ofynnol y Bwrdd lechyd â hyfforddiant gorfodol yn cael ei chyflawni drwy recriwtio aelodau o staff i'r swyddi hyn, a bydd Rheolwyr y Wardiau yn monitro'r lefelau cydymffurfiaeth bob mis ac yn uwchgyfeirio unrhyw rwystrau y mae'r staff yn eu hwynebu wrth fynychu'r hyfforddiant i'w datrys mewn modd amserol.		
--	--	-------------------------------	--	---	--	--

15.	Nid oedd seicolegydd wedi bod yn gweithio ar y ddwy ward ers dros ddwy flynedd, a oedd yn effeithio ar ymyriadau therapiwtig, asesiadau seicolegol, a phrosesau cynllunio ar gyfer gwella.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth seicolegol a gweithgareddau therapiwtig yn cael eu blaenoriaethu drwy ymdrin â swydd y seicolegydd, sy'n wag ar hyn o bryd, a rhoi cynlluniau clir ar waith i ddarparu mynediad amserol i gleifion.	Gofal ag Urddas.	Bydd y bwrdd iechyd yn atgyfnerthu mynediad at gymorth seicolegol a gweithgareddau therapiwtig drwy wneud cais am gymeradwyaeth i recriwtio Seicolegydd Ymgynghorol Fforensig o dan Atodiad 21 er mwyn ehangu nifer yr ymgeiswyr.	Pennaeth y Gwasanaeth	31 Mawrth 2026
16.	Roedd materion yn ymwneud â'r ystad a chynnal a chadw yn parhau heb eu datrys ers peth amser, a oedd yn tanseilio hyder yn y prosesau llywodraethu ac yn effeithio ar yr amgylchedd therapiwtig.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod uwch-reolwyr yn goruchwyllo prosesau rheoli'r ystad yn uniongyrchol, gan gynnwys cynnal adolygiad rheolaidd o adnodd tracio'r adran ystadau a'r broses o uwchgyfeirio tasgau sydd heb eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol.	Llywodraethu a'r Gweithlu.	Bydd y Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu prosesau goruchwyllo'r uwch-reolwyr mewn perthynas â threfniadau rheoli'r adran ystadau drwy adolygu a diweddarau cylch gorchwyl y Grŵp Strategaeth ar gyfer Adeiladau i gynnwys cyfrifoldeb am adolygu adnodd tracio'r adran ystadau ac	Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Grŵp Gofal Clinigol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	31 Mawrth 2026

				uwchgyfeirio tasgau nad ydynt wedi'u cwblhau o fewn yr amser gofynnol. Bydd hyn yn sicrhau bod uwch-reolwyr ac arweinwyr ystadau yn mynychu'n rheolaidd, ac yn rhoi eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn monitro ac uwchgyfeirio camau gweithredu nad yw'r adran ystadau wedi'u cymryd eto.		
--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rebecca Temple-Purcell

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

